Y Pwyllgor Busnes
—
Y Pwyllgor Busnes

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddBusnes@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddBusnes
0300 200 6565
—
**Senedd Cymru**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddBusiness@senedd.wales
Senedd.wales/SeneddBusiness
0300 200 6565

Dyddiad: 16 Gorffennaf 2024

Annwyl Gyfaill

## Rhannu swydd cadeirydd pwyllgor

Pwyllgor Busnes y Senedd sy'n gyfrifol am wneud argymhellion ar arferion a gweithdrefnau cyffredinol y Senedd, gan gynnwys unrhyw gynigion ar gyfer ail-wneud y Rheolau Sefydlog neu eu diwygio.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae diddordeb wedi datblygu yn rôl bosibl rhannu swyddi yng nghyd-destun swyddi seneddol. Mae hefyd yn fater sydd wedi'i godi fel rhan o'r ystyriaeth a roddwyd i ddiwygio'r Senedd.

## Ffocws gwaith y Pwyllgor Busnes

Mae'r Pwyllgor Busnes yn bwriadu edrych ar y potensial ar gyfer rhannu swydd yn rôl cadeirydd pwyllgor. Mae wedi dewis canolbwyntio i ddechrau ar y rôl hon - a'r rôl hon yn unig - ar y sail na ddisgwylir y bydd angen unrhyw newidiadau i'r gyfraith os yw'r Senedd yn dewis cyflwyno trefniadau o'r fath ar gyfer cadeiryddion pwyllgorau. Yn amodol ar gytundeb y Senedd, gallai fod yn bosibl felly i'r fframwaith gweithdrefnol ac ymarferol angenrheidiol fod ar waith cyn diwedd tymor y Senedd hon yn 2026.

## Galwad wedi'i thargedu am dystiolaeth

Mae'r Pwyllgor Busnes yn ymwybodol o natur newydd rhannu swyddi cadeiryddion pwyllgorau a'r cyfleoedd a'r heriau posibl y gallai trefniadau o'r fath eu cyflwyno mewn lleoliad seneddol. Ar y sail honno, mae'r Pwyllgor Busnes yn cynnal galwad wedi'i thargedu am dystiolaeth yn ystod haf 2024,

gan wahodd barn ar y meysydd diddordeb a nodir isod, gan academyddion sydd ag arbenigedd yn y maes hwn, sefydliadau a chynghorau sydd â threfniadau tebyg ar waith, a rhwydweithiau seneddol. Er bod yr ymgynghoriad wedi'i dargedu, rydym yn annog unrhyw un sydd ag arbenigedd neu brofiad o'r materion hyn i rannu eich barn, gan wybod yn iawn y bydd eich barn yn cael ei chroesawu a'i gwerthfawrogi.

Dyma fydd yn ffurfio cam 1 y gwaith o gasglu tystiolaeth. Bwriad y dystiolaeth a gaiff ei chasglu yn ystod y cam hwn yw llywio cam 2 y gwaith, a chaiff ei fanylion eu hamlinellu yn yr atodiad.

## Maes diddordeb

Er mwyn helpu i lywio ei ystyriaeth o'r potensial i rannu swydd yn rôl cadeirydd pwyllgor, mae'r Pwyllgor Busnes yn gofyn am farn ar:

- Egwyddorion a allai arwain unrhyw waith o ddatblygu model ar gyfer rhannu swydd yn rôl cadeirydd pwyllgor;
- Manteision neu fuddion posibl a allai godi pan fydd Aelodau'n rhannu swydd yn rôl cadeirydd pwyllgor, gan gynnwys i'r Aelodau, pwyllgorau, rhanddeiliaid a'r Senedd gyfan;
- Anfanteision neu heriau posibl a allai godi pan fydd Aelodau'n rhannu swydd yn rôl cadeirydd pwyllgor, gan gynnwys i'r Aelodau, pwyllgorau, rhanddeiliaid a'r Senedd gyfan;
- Sylwadau ar effaith bosibl Aelodau'n rhannu swydd yn rôl cadeirydd pwyllgor ar gapasiti craffu cyffredinol y Senedd;
- Awgrymiadau ar gyfer unrhyw faterion ymarferol neu fanwl y byddai angen eu hamlinellu yn Rheolau Sefydlog y Senedd, neu unrhyw ganllaw/protocol cysylltiedig, yn ymwneud â gweithredu rhannu swydd yn rôl cadeirydd pwyllgor;
- Unrhyw rwystrau gweithdrefnol neu rwystrau eraill posibl i weithredu rhannu swydd yn rôl cadeirydd pwyllgor, neu effeithiolrwydd hynny, a sut y gellid mynd i'r afael â'r rhain;
- Unrhyw enghreifftiau perthnasol o fodelau rhannu swydd yn rôl cadeirydd pwyllgor neu gorff tebyg arall, ac unrhyw ystyriaethau ar eu gweithredu;
- Unrhyw fater arall yn ymwneud ag ystyried rhannu swydd yn rôl cadeirydd pwyllgor.

Sylwch fod y Pwyllgor Busnes yn bwriadu adolygu unrhyw dystiolaeth berthnasol a gasglwyd gan bwyllgorau'r Senedd flaenorol a'r Panel Arbenigol annibynnol ar Ddiwygio Etholiadol. Ffocws yr ymarfer hwn yw casglu rhagor o dystiolaeth yn ymwneud yn benodol â chadeiryddion pwyllgorau.

Sylwch fod hwn yn ddarn o waith ar wahân i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar **ymestyn darpariaethau rhannu swydd ar gyfer aelodau etholedig o brif gynghorau i rolau nad ydynt yn rhan o'r weithrediaeth**.

## Gwahoddiad i gyfrannu i'r ymchwiliad

Hoffai'r Pwyllgor eich gwahodd i gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig i'w gynorthwyo wrth ystyried y mater. Gallwch ymateb i unrhyw un neu bob un o'r pwyntiau bwled uchod. Byddem yn eich annog i gadw eich ymateb yn gryno a chanolbwyntio ar y pwyntiau allweddol yr hoffech dynnu sylw'r Pwyllgor atynt.

Os hoffech ymateb i ymgynghoriad y Pwyllgor, anfonwch gopi electronig o'ch tystiolaeth i SeneddBusnes@senedd.cymru.

Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyniadau i'r ymgynghoriad hwn yw **17 Medi 2024.** Mae'n bosibl na fydd modd ystyried ymatebion a ddaw i law ar ôl y dyddiad hwn.

## Darparu tystiolaeth ysgrifenedig

Mae gan y Senedd ddwy iaith swyddogol, sef Cymraeg a Saesneg.

Yn unol â Chynllun Ieithoedd Swyddogol y Senedd, mae'r Pwyllgor yn croesawu cyfraniadau yn y naill neu'r llall o'n hieithoedd swyddogol, neu'r ddwy, a gofynnwn i sefydliadau sy'n ddarostyngedig i Safonau'r Gymraeg neu gynlluniau iaith Gymraeg ymateb yn unol â'u rhwymedigaethau eu hunain. Rhowch wybod i'r Pwyllgor wrth gyflwyno ymatebion os ydych yn bwriadu darparu cyfieithiad yn ddiweddarach.


Gweler y canllawiau ar gyfer cyflwyno tystiolaeth i bwyllgorau.

## Datgelu gwybodaeth

Cofiwch sicrhau eich bod wedi ystyried polisi'r Senedd o ran datgelu gwybodaeth cyn cyflwyno gwybodaeth i'r Pwyllgor.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, cysylltwch â Graeme Francis, y Clerc ar SeneddBusnes@senedd.cymru.

Yn gywir



Y Gwir Anrh. Elin Jones AS
Y Llywydd a Chadeirydd y Pwyllgor Busnes

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

Atodiad

## Y camau nesaf ar ôl yr alwad wedi'i thargedu am dystiolaeth (Cyfnod 2 – hydref 2024)

Yn nhymor yr hydref, mae'r Pwyllgor Busnes yn bwriadu cynnal ail gyfnod ymgynghori. Bydd hyn yn canolbwyntio ar Aelodau o'r Senedd, grwpiau gwleidyddol y Senedd, y Bwrdd Taliadau, Comisiwn y Senedd a Fforwm y Cadeiryddion. Bydd yn gofyn am eu barn ar gyfres o gynigion a fydd yn adlewyrchu ystyriaeth y Pwyllgor Busnes o ganlyniadau'r alwad wedi'i thargedu am dystiolaeth a wnaed yn ystod cyfnod 1.

Mae’r Pwyllgor Busnes yn disgwyl, os bydd y gwaith yn arwain at gynnig bod y Senedd yn cyflwyno trefniadau rhannu swydd ar gyfer cadeiryddion pwyllgorau, y disgwylir iddynt fod yn drefniadau peilot er mwyn llywio dull y Senedd ar gyfer rhannu swyddi yn y dyfodol, ond heb fod yn gwbl haearnaidd;

Bydd pawb sy'n ymateb i Gyfnod 1 y broses o gasglu tystiolaeth yn cael gwybod am gynnydd y Pwyllgor Busnes, oni bai eu bod yn nodi nad ydynt yn dymuno cael diweddariad.